

Mae'n wych gwneud penderfyniadau ecogyfeillgar, fel gwneud ein cartrefi'n fwy effeithlon o ran ynni a gosod technolegau ynni fel paneli solar. Mae'n gallu arbed arian yn y tymor hir, ac mae'n dda i'r amgylchedd. Mae hefyd yn rhan bwysig o sut y gallwn ni gyrraedd targed newid hinsawdd y DU.

Ond mae'n bwysig hefyd eich bod chi'n teimlo'n hyderus pan fyddwch chi'n gwneud y penderfyniadau hyn.

Mae rhai honiadau camarweiniol yn cael eu gwneud, felly cadwch lygaid ar bethau fel sgamiau, masnachwyr twyllodrus ac arferion gwael gan gwmnïau. Mae hyn yn cynnwys:

- Masnachwyr twyllodrus sy'n ceisio rhoi pwysau arnoch i lofnodi contract ar garreg y drws
- Galwyr digroeso yn ceisio eich darbwylo bod angen technolegau ychwanegol arnoch i wneud eich technoleg gartref yn fwy effeithlon, ond heb fawr o sail i'w honiadau
- Cwimni anghyfarwydd yn cysylltu â chi i ddweud bod angen newid eich inswleiddiad, gan ddefnyddio tactegau codi brow i roi mwy o bwysau arnoch
- Masnachwyr yn honni'n anghywir eu bod yn cael eu 'cefnogi gan y llywodraeth' neu fod grantiau gan y llywodraeth ar gael i ddefnyddwyr i'w darbwylo i gytuno i'r gwaith

Mae Cyngor ar Bopeth yn helpu pobl i ddod o hyd i ffordd ymlaen

Rydym yn darparu cyngor cyfrinachol ac annibynnol am ddim i helpu pobl i oresgyn eu problemau. Rydym yn llais i'n cleientiaid a'n defnyddwyr ar y materion sy'n bwysig iddynt.

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth, yn hyrwyddo cydraddoldeb, ac yn herio gwahaniaethu ac aflonyddu.

Rydym ni yma i bawb.

citizensadvice.org.uk



Cyhoeddwyd Tachwedd 2021

Cyngor ar Bopeth yn enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth.

Rhif cofrestru'r elusen 279057.

Gwyrdd, diogel a doeth

Sut i fod yn ddefnyddiwr ecogyfeillgar hyderus a doeth

O wneud eich cartref yn fwy effeithlon o ran ynni i brynu technoleg ynni fel paneli solar, mae'n wych gwneud penderfyniadau ecogyfeillgar - gan arbed arian a helpu'r amgylchedd.

Ond mae'n bwysig gwneud yn siŵr eich bod chi'n gwneud hynny mewn ffordd glyfar a doeth.

Dilynwch ein hawgrymiadau syml i'ch helpu i fod yn berson **#GreenAndWise**

cyngor ar
bopeth



NATIONAL
TRADING
STANDARDS
Protecting Consumers
Safeguarding Businesses

Gwnewch eich ymchwil

- ✓ **Cyn i chi brynu unrhyw beth, gwiriwch y cwmni neu'r wefan rydych chi'n ei defnyddio.** Darllenwch adolygiadau ar wahanol wefannau, gofynnwch am eirida, gwiriwch fanylion y cwmni gan ddefnyddio ffynonellau allanol a darllenwch unrhyw delerau ac amodau
- ✓ Os ydych chi'n gwneud gwelliannau i'ch cartref, gofalwch gael **dyfynbrisiau ysgrifenedig**. Ceisiwch eu cael gan o leiaf 3 chontractwr gwahanol i'ch helpu i benderfynu a ydych chi'n cael pris teg
- ✓ Wrth chwilio am fasnachwr i'w ddefnyddio, **edrychwch ar gynlluniau ardystiedig** sy'n argymhell masnachwyr, fel TrustMark - cynllun ansawdd cymeradwy'r Llywodraeth

Cymerwch gamau i amddiffyn eich hun rhag ofn i rywbeth fynd o'i le

- ✓ **Dylech bob amser gael contract ysgrifenedig cyn i chi gadarnhau gyda'r contractwr.** Os nad yw'r contractwr yn gwneud yr hyn y gwnaethoch chi gytuno iddo, gall hyn eich helpu i gael eich arian yn ôl neu o leiaf rywfaint o'ch arian yn ôl.
- ✓ **Defnyddiwch ddull diogel o dalu** - cardiau credyd sy'n fwyaf diogel, yna PayPal neu gerdyn debyd. Os ydych chi'n talu am welliannau mawr i'ch cartref, edrychwch a allwch chi dalu ychydig ar

y tro, a cheisiwch osgoi talu am gostau ymlaen llaw lle bo hynny'n bosibl

- ✓ **Byddwch yn ddrwgdybus.** Mae sgamwyr a masnachwyr twyllodrus yn gallu bod yn glyfar iawn. Cymerwch eich amser i wneud yn siŵr eich bod chi'n hapus gyda'ch penderfyniad - os bydd rhywun yn rhoi pwysau arnoch chi, mae'n debyg mai sgam fydd e

Cadwch lygad am sgamwyr

Mae rhai sgamwyr yn manteisio ar bobl sydd am fod yn fwy ecogyfeillgar. Efallai y byddan nhw'n esgus eu bod yn cynnig grant gan y llywodraeth, neu'n gofyn am daliad ar gyfer gwelliannau i'r cartref sy'n effeithlon o ran ynni ond byth yn cyflawni'r gwelliannau hynny. Dyma rai o'r prif arwyddion rhybudd i gadw llygad amdany'n nhw:

- ✓ Rhywun yn cysylltu'n annisgwyl, er enghraifft, rhywun anghyfarwydd yn cysylltu
- ✓ Rhywun yn gofyn i chi am wybodaeth bersonol fel cyfrineiriau neu eich manylion banc
- ✓ Rhywun yn eich annog i ymateb yn gyflym fel nad ydych chi'n cael amser i feddwl am y peth na siarad ag eraill
- ✓ Rydych chi'n amau nad ydych chi'n delio â chwmni go iawn, er enghraifft, does dim manylion sylfaenol fel cyfeiriad post
- ✓ Rhywun yn gofyn i chi dalu am gynnyrch neu wasanaeth cyn derbyn cadarnhad ysgrifenedig o'r hyn y cytunwyd arno

Ble i gael mwy o wybodaeth

Os hoffech gael rhagor o gyngor ar sut i fod yn ddefnyddiwr diogel a doeth, ewch i **citizensadvice.org.uk/NCW21**. Mae gennym ni awgrymiadau ar bethau fel:

- ✓ Sut i ddod o hyd i fasnachwr y gallwch chi ymddiried ynddo
- ✓ Y camau i'w cymryd cyn i chi gael gwaith adeiladu wedi ei wneud
- ✓ Sut i adnabod sgam a beth i'w wneud os ydych chi'n meddwl eich bod chi wedi cael eich targedu

Beth os oes rhywbeth wedi mynd o chwith

Rydyn ni'n gwybod bod pethau weithiau'n mynd o chwith, hyd yn oed os ydych chi'n gwneud popeth yn iawn, ac os bydd hynny'n digwydd, rydyn ni yma i helpu. Cysylltwch â'r gwasanaeth defnyddwyr neu ewch i'n tudalennau cyngor i gael rhagor o gymorth.

Os ydych chi wedi cael problem, gallwch hefyd gysylltu â gwasanaeth defnyddwyr Cyngor ar Bopeth ar **0808 223 1144**.

Os ydych chi'n meddwl bod rhywun yn ceisio'ch twyllo, gofynnwch am gyngor. Cysylltwch â gwasanaeth defnyddwyr Cyngor ar Bopeth am help gyda beth i'w wneud nesaf, a riportiwch sgamiau neu sgamiau amheus i Action Fraud drwy ffonio **0300 123 2040** neu ewch i **www.actionfraud.police.uk**